**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KW/03386/20
Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

Annwyl Janet Finch-Saunders AS,

30 Mehefin 2020

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Mehefin yn dilyn fy ymateb i'ch llythyr blaenorol ynghylch y ddeiseb sy'n gofyn i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r gyfraith i ymestyn yr oedran y ceir hawl i gymorth addysgol ychwanegol o 25 i 26, ac i ddiffinio pandemig COVID-19 yng nghanllawiau'r Llywodraeth fel amgylchiad eithriadol.

Yng ngoleuni'r ohebiaeth ynghlwm i'ch llythyr oddi wrth y Deisebwr, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried y materion a godwyd yn fanylach er mwyn i mi ddarparu ateb llawnach. Byddaf felly yn ymateb cyn y toriad oni bai eich bod yn rhoi gwybod i mi bod angen yr ymateb erbyn dyddiad penodol.

Yn y cyfamser, efallai yr hoffech wybod bod pedwar cais am estyniad i raglenni astudiaeth a gytunwyd wedi'u cyflwyno hyd yma, sy'n cynnwys rhesymau yn ymwneud ag effaith COVID-19. Mae'r ceisiadau hyn wedi cael eu hystyried fesul achos unigol ac yn unol â'r polisi, ac fe allaf gadarnhau eu bod wedi cael eu cymeradwyo.

Yn gywir,

**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.